



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

**TYSTYSGRIF ÔL-RADDEDIG
DIPLOMA ÔL-RADDEDIG
MEISTR GWYDDONIAETH**

MEWN

**GWYDDORAU BIOFEDDYGOL (BIOCEMEG FEDDYGOL)
GWYDDORAU BIOFEDDYGOL (MICROBIOLEG FEDDYGOL)
GWYDDORAU BIOFEDDYGOL (IMIWNOHAEMATOLEG)
GWYDDORAU BIOFEDDYGOL (PATHOLEG GELLOG a MOLECIWLAIDD)
GWYDDORAU BIOFEDDYGOL (GENOMEG a GENETEG FEDDYGOL)**

Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd

Gwybodaeth am y Cyfnod Cynefino ac Ymrestru

Blwyddyn Academaidd 2018/2019

CYNNWYS

1. [Croeso oddi wrth gyfarwyddwr eich rhaglen a'r tîm addysgu](#)
2. [Ymrestru / Casglu Cerdyn Adnabod](#)
3. [Amserlen yr Wythnos Gynefino](#)
4. [Presenoldeb](#)
5. [Dolenni defnyddiol](#)

1. Croeso oddi wrth eich Tîm Addysgu

Annwyl Fyfyriwr

Maninder Ahluwalia ydw i, Cyfarwyddwr Rhaglenni MSc Gwyddorau Biofeddygol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Hoffwn eich croesawu ymlaen llaw i'r rhaglen. Rwyf yn gobeithio bod eich cynlluniau i ddod i Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn symud ymlaen yn hwylus; mae'r tîm addysgu yn edrych ymlaen yn fawr at gael eich gweld ym mis Medi.

Yn ymrwymedig i'n myfyrwyr

Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd rydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn ein perthynas â'n myfyrwyr. Mewn adolygiad allanol diweddar gan IBMS (*Institute of Biomedical Sciences*) o'r rhaglen MSc Gwyddorau Biofeddygol, cawsom ein canmol am ein systemau cefnogi myfyrwyr ardderchog. Gwnaeth ein harolwyr allanol sylwad hefyd yn eu hadroddiad diwedd blwyddyn bod ein cymorth i'r holl fyfyrwyr o amryfal gefndiroedd i'w ganmol: *"the way the course deals with the range of students, from mature part-time students in the NHS, to international students who do not have English as a first language, is a strong feature of the course."*

Cael eich addysgu gan unigolion proffesiynol

Bydd y myfyrwyr yn elwa o gael eu haddysgu gan dîm academaidd rhagorol sydd ag ystod eang o brofiad. Mae nifer o'r tîm yn Gymrodorion neu'n Aelodau o'r IBMS, mae 6 aelod o'r staff wedi'u cofrestru i ymarfer gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ac mae cysylltiadau agos ganddyn nhw â'r proffesiwn Gwyddorau Biofeddygol, ac mae llawer ohonyn nhw'n ymchwilyr blaenllaw a gweithredol ym maes y Gwyddorau Biofeddygol. Mae diddordebau ymchwil cyfoes a pherthnasol y tîm academaidd ym meysydd diabetes mellitus, canser, gwella clwyfau, lewcmia a dolur y galon, wedi rhoi cyfle i'r myfyrwyr ymgymryd ag ymchwil o safon uchel iawn dros amrywiaeth eang o bynciau ac mae hyn wedi'i gymeradwyo gan arholwyr allanol ac mae safon uchel y gwaith arbrolfol sy'n cael ei gyflawni yn cael ei amlygu.

Nodau'r rhaglen

Mae nodau a deilliannau'r rhaglen wedi'u goleuo gan ofynion y Brifysgol a nifer o randdeiliaid allanol, megis y gwyddonydd gofal iechyd, yr IBMS a'r HCPC, cyflogwyr a'n myfyrwyr rhyngwladol.

Nod y rhaglen yw cynnig llwybr datblygiad gyrfa i'r gwyddonydd biofeddygol. Mae'n bwriadu adeiladu ar, a datblygu, y wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd wrth astudio yn israddedig ac yn y gweithle, i roi'r gallu i'r gwyddonydd biofeddygol symud ymlaen yn yr yrfa o'i (d)dewis. Gallai hyn fod er mwyn sicrhau swydd uwch neu swydd reoli, neu symud ymlaen i radd ymchwil uwch, neu yn rhan o lwybr proffesiynol i Ddiploma Arbenigol Uwch neu yn garreg sarn i raglen Ddoethuriaeth a addysgir.

Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig cwrs astudio uwch ac ymchwil ar gyfer myfyrwyr amser llawn sydd heb eu cyflogi eto. Mae'n datblygu gwybodaeth ddwys mewn arbenigedd penodol gan barhau i fod â ffordd integredig o ran meddygaeth ddiagnostig a gwyddor biofeddygol. Bydd elfennau ymarferol y rhaglen a addysgir a'r prosiect ymchwil yn rhoi cyfle i bob myfyriwr sicrhau a datblygu sgiliau dadansoddi a sgiliau ymchwil a fydd yn paratoi myfyrwyr ar gyfer ymchwil pellach. Fodd bynnag, mae'n arbennig o bwysig ar gyfer rhai o'n myfyrwyr rhyngwladol a fydd am lenwi bwch sgiliau ymarferol o'u hastudiaethau blaenorol a fydd yn ofynnol er mwyn symud i lefel nesaf y dysgu.

Cyfleoedd gwyb o ran cael swyddi

Mae record gyflogi wych gan ein myfyrwyr â rhai myfyrwyr yn ennill dyrchafiad i fod yn rheolwyr uwch o fewn y GIG neu gwmnïau Fferyllol neu Fiotechnolegol lleol, ac mae myfyrwyr eraill wedi mynd ymlaen i wneud PhD neu swydd ymchwil ac mae llawer o'n myfyrwyr rhyngwladol wedi dychwelyd

adref wedi'u harfogi â'r sgiliau technegol a throsglwyddadwy newydd a fydd yn eu galluogi i gyfrannu at symud y gwyddorau biofeddygol ymlaen yn eu gwledydd nhw eu hunain.

Rwyf yn edrych ymlaen at gael cwrdd â chi yng nghyfnod cynefino Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd a gynhelir ar **Ddydd Iau, Medi 20^{fed} 2018 rhwng 2pm a 5pm yn Ystafell (i'w chadarnhau) ar Gampws Llandaf.**

Maninder Ahluwalia

mahluwalia@cardiffmet.ac.uk

Cwrdd â'r Tîm:

Cyfarwyddwr y Rhaglen sy'n gyfrifol am drefnu a gweithredu'r rhaglen yn gyffredinol ac am ddarparu arweinyddiaeth academaidd. Bydd **Arweinwyr y Modiwlau** yn cydlynu gwaith cyflawni ac asesu eu modiwlau.

Bydd **goruchwylwyr y prosiectau** yn cysylltu ar sail un-i-un gyda'r myfyrwyr yn ystod elfen draethawd y rhaglen. Caiff y prosiectau y bydd y myfyrwyr amser llawn yn ymgymryd â nhw eu cydlynu gan **reolwr y prosiect**. Bydd goruchwylwr o'r brifysgol a goruchwylwr yn y labordy gan y myfyrwyr rhan-amser a bydd cyfarwyddwr y rhaglen yn cydlynu'r broses.

		Ystafell	Estyniad
Cyfarwyddwr y Rhaglen	Dr Maninder Ahluwalia	D201b	5924
Arweinwyr y Modiwlau			
Bioleg Foleciwlaidd	Dr Neil Rushmere	D2.04c	1145
Strategaethau Ymchwil ac Arloesedd mewn Gwyddor Fiofeddygol	Dr Jo Welton	D2.06	4170
Imiwnoleg	Dr Rebecca Aicheler	T2.11	6842
Technegau Dadansoddol a Diagnostig	Dr Maninder Ahluwalia	D2.04c	5924
Biocemeg Feddygol	Dr Lowri Mainwaring	D2.01d	5608
Pynciau Uwch mewn Biocemeg Feddygol	Dr Lowri Mainwaring	D2.01d	5608
Imiwnohaematoleg	Ms Amanda Davies	D2.06a	5999
Pynciau Uwch mewn Imiwnohaematoleg	Ms Amanda Davies	D2.06a	5999
Patholeg Gellog a Moleciwlaidd	Dr Maninder Ahluwalia	D2.01cb	5924
Pynciau Uwch mewn Patholeg Gellog a Moleciwlaidd	Dr Neil Rushmere	D2.04c	1145
Microbioleg Feddygol	Dr Mike Beeton	D2.08	5557
Pynciau Uwch mewn Microbioleg a Heintiau	Dr Sarah Maddocks	D201e	5607
Genomeg a Geneteg Feddygol	Dr Maninder Ahluwalia	D2.01cb	5924
Pynciau Uwch mewn Genomeg a Geneteg Feddygol	Dr Maninder Ahluwalia	D2.01cb	5924

2. Ymrestru / Casglu Cerdyn Adnabod

Pan gaiff y drefn o ran casglu cardiau adnabod ei chadarnhau, byddwn yn cynnwys hyn yn Amserlen eich Cyfnod Cynefino.

Ymrestru

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich **Ebost Ymrestru**. Os bydd angen cymorth arnoch i ddewis y modiwlau opsiynol, gallwch gysylltu â chyfarwyddwr eich rhaglen. Gellir gwneud hyn hefyd pan fyddwch yn cwrdd â chyfarwyddwr eich rhaglen yn ystod y cyfnod cynefino.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe www.cardiffmet.ac.uk/enrolment a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. **Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio.** Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

3. Amserlen yr Wythnos Gynefino

Cynhelir y cyfnod cynefino ar **Ddydd Iau, Medi 20^{fed}** 2018 rhwng 2pm a 5pm yn Ystafell (i'w chadarnhau). Ewch i brif dderbynfa Prifysgol Metropolitan Caerdydd sydd ar flaen Campws Llandaf ac fe gewch eich cyfeirio i'r ystafell briodol.

Bydd y myfyrwyr yn cwrdd â chyfarwyddwr y rhaglen ac yn derbyn gwybodaeth am y rhaglen. Caiff cyflwyniad i gyfleusterau'r llyfrgell ei drefnu yn ddiweddarach yn y tymor.

DYDD LLUN Medi 17 ^{eg}	DYDD MAWRTH Medi 18 ^{fed}	DYDD MERCHER Medi 19 ^{eg}	DYDD IAU Medi 20^{fed}	DYDD GWENER Medi 21 ^{ain}
			Cyfnod cynefino a chasglu cerdyn adnabod 2pm - 5pm Ystafell (i'w chadarnhau) Campws Llandaf	

4. Presenoldeb

Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr rhan-amser y flwyddyn gyntaf ddod i'r Brifysgol ar gyfer darlithoedd ar Ddydd Mercher, rhwng 9.00am a 6.00pm fel arfer, a bydd yn ofynnol i'r myfyrwyr amser llawn ddod i'r Brifysgol ar gyfer darlithoedd ar Ddydd Mercher a Dydd Iau. Bydd disgwyl i'r myfyrwyr amser llawn ddod i'r Brifysgol yn amser llawn ac ymgymryd â'r gwaith ymarferol ar gyfer y Traethawd. **Dydd Mercher, Medi 19^{eg} 2018** fydd y dyddiad cyntaf y bydd angen i'r myfyrwyr fod yn bresennol ar gyfer y cyfnod cynefino ac yna ar Ddydd Mercher, Medi 26^{ain} 2018 ar gyfer darlithoedd.

Bydd y flwyddyn academiaidd yn parhau am 30 wythnos a bydd wedi'i threfnu yn 3 thymor.

Ymrestru / Dewis Modiwlau a Chynefino Blwyddyn 1:

Dydd Llun, Medi 17^{eg} 2018 – Dydd Gwener, Medi 21^{ain} 2018

Tymor yr Hydref:

Dydd Llun, Medi 24^{ain} 2018 – Dydd Gwener, Rhagfyr 14^{eg} 2018

Tymor y Gwanwyn:

Dydd Llun, Ionawr 14^{eg} 2019 – Dydd Gwener, Mawrth 29^{ain} 2019

Tymor yr Haf:

Dydd Llun, Ebrill 29^{ain} 2019 – Dydd Gwener, Mehefin 14^{eg} 2019

Isod ceir amserlen fesul wythnos i'ch helpu i gynllunio eich blwyddyn academaidd. At ddibenion amserlennu, caiff pob wythnos o'r flwyddyn ei hadnabod gan rif pendol. Gallai'r tabl canlynol fod yn ddefnyddiol i chi ar gyfer hyn.

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD		
DYDDIADAU'R TYMHORAU 2018/2019		
PATRYMAU'R WYTHNOSAU ADDYSGU		
Wythnos yn dechrau:	Wythnos Rhif	Strwythur y Tymor
17 Medi 2018	8	WYTHNOS GYNEFINO
24 Medi 2018	9	Addysgu Tymor 1 yn dechrau Dechrau Tymor yr Hydref
01 Hydref 2018	10	
08 Hydref 2018	11	
15 Hydref 2018	12	
22 Hydref 2018	13	
29 Hydref 2018	14	
05 Tachwedd 2018	15	
12 Tachwedd 2018	16	
19 Tachwedd 2018	17	
26 Tachwedd 2018	18	
03 Rhagfyr 2018	19	
10 Rhagfyr 2018	20	Addysgu Tymor 1 yn gorffen Diwedd Tymor yr Hydref
17 Rhagfyr 2018	21	GWYLIAU'R NADOLIG
24 Rhagfyr 2018	22	GWYLIAU'R NADOLIG
31 Rhagfyr 2018	23	GWYLIAU'R NADOLIG
07 Ionawr 2019	24	GWYLIAU'R NADOLIG
14 Ionawr 2019	25	Addysgu Tymor 2 yn dechrau Dechrau Tymor y Gwanwyn
21 Ionawr 2019	26	
28 Ionawr 2019	27	
04 Chwefror 2019	28	
11 Chwefror 2019	29	
18 Chwefror 2019	30	
25 Chwefror 2019	31	
04 Mawrth 2019	32	
11 Mawrth 2019	33	
18 Mawrth 2019	34	
25 Mawrth 2019	35	Diwedd Tymor y Gwanwyn
01 Ebrill 2019	36	GWYLIAU'R PASG
08 Ebrill 2019	37	GWYLIAU'R PASG
15 Ebrill 2019	38	GWYLIAU'R PASG
22 Ebrill 2019*	39	GWYLIAU'R PASG
29 Ebrill 2019	40	Dechrau Tymor yr Haf Patrwm addysgu'r israddedigion yn gorffen
06 Mai 2019*	41	Arholiadau
13 Mai 2019	42	Arholiadau
20 Mai 2019	43	Arholiadau
27 Mai 2019*	44	Byrddau Arholi
03 Mehefin 2019	45	
10 Mehefin 2019	46	Diwedd Tymor yr Haf

*Gŵyl y Banc Mai 6^{ed} a Mai 27^{ain}

5. Dolenni defnyddiol

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)

Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campysau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)
- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)

Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiweiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cynghori personol, anabled a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)

Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys